# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, G O Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Margaret Murley Roberts, Alwen P Watkin a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 5),<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Swyddog Adnoddau Dynol (NH),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |

---

### 1 ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Llinos Medi yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau.

### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Ieuan Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau.

### 3 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim wedi'u derbyn.

### 4 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth, 2022 yn gywir.

### 5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**6** **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid mewn perthynas â'r swydd wag Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad ac argymhellion y Swyddog gydag un ychwanegiad o ran marchnata sef defnyddio'r safle recriwtio Lleol.net.**

**7** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**8** **APWYNTIO STAFF**

**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc**

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid bod y swydd Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl ifanc wedi cael ei hysbysebu'n allanol rhwng 6ed Mai a 30ain Mai 2022, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhellion y Swyddog o ran llunio rhestr fer a chefnogi'r broses recriwtio a amlinellir yn yr adroddiad.**

**Y CYNGHORYDD LLINOS MEDI**
**CADEIRYDD**